

JONES, EDWARD ('Bardd y Brenin'; 1752 - 1824), telynor, trefnydd a chyhoeddwr cerddoriaeth i'r delyn, casglwr a chyhoeddwr hen benillion, alawon cenedlaethol, a chyfieithiadau i'r Saesneg, hanesydd llenyddiaeth Gymraeg ac offerynnau cerdd y Cymry, casglwr llawysgrifau a hynafiaethydd

Enw: Edward Jones
Ffugenw: Bardd Y Brenin
Dyddiad geni: 1752
Dyddiad marw: 1824
Rhiant: Jane Jones
Rhiant: John Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: telynor, trefnydd a chyhoeddwr cerddoriaeth i'r delyn, casglwr a chyhoeddwr hen benillion, alawon cenedlaethol, a chyfieithiadau i'r Saesneg, hanesydd llenyddiaeth Gymraeg ac offerynnau cerdd y Cymry, casglwr llawysgrifau a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Perfformio; Argraffu a Chyhoeddi; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Tecwyn Ellis

Ganwyd yn Henblas, Llandderfel, Sir Feirionnydd, a'i fedyddio 29 Mawrth 1752, pedwerydd plentyn John a Jane Jones o naw o blant. Dywedir bod y tad yn gerddor galluog, yn fedrus ar ganu amryw o offerynnau, yn delynor, a gwneuthurwr telynau. Hyfforddwyd rhai o'r plant ganddo i ganu gwahanol offerynnau, a pharatoedd Edward ar gyfer galwedigaeth gerddorol. Ymddiddorodd yn gynnari mewn barddoniaeth ac arferion brodorol.

Aeth i Lundain tua 1775 dan nawddogaeth boneddigion Cymreig. Daeth i gyswilt â'r Dr. Burney bron ar unwaith, a bu'n athro ar ganu'r delyn i amryw bersonau bonheddig. Apwyntiwyd ef yn delynor i dywysog Cymru; o tua 1790 ymlaen defnyddiodd y teitl yn gyson hyd 1820. Ar ôl i'r tywysog ddod yn frenin, dechreuwyd ei alw'n 'Fardd y Brenin.' Trigai yn mhlais S. James o 1805 hyd 1820 yn 'The Office of Robes,' a dalai swydd o ryw fath yno. Ymwelai â thai gwyr bonheddig yn Lloegr, a deuai i Gymru yn ystod yr haf. Rhos fedal i'r canwr gorau gyda'r tannau yn eisteddfod Corwen, 1789, ac am y casgliad gorau o benillion yn y Bala yr un flwyddyn. Yr oedd yn y ddwy 'Orsedd' ar Fryn y Briallu, h.y. Primrose Hill, Llundain, yn 1792. Ef oedd y beirniad ar ganu'r delyn yn eisteddfod Caerfyrddin, 1819, ac eisteddfod Wrecsam, 1820.

Cyhoeddodd oddeutu 20 o lyfrau'n cynnwys caneuon gyda'r cyfeiliannau wedi eu trefnu i'r harpsichord, y piano, neu'r delyn, trefniadau o weithiau cyfansoddwyr clasurol ac eilradd, alawon cenedlaethol gydag amrywiadau, a chyfansoddiau o'i eiddo ei hun ymyst pethau eraill. Cynnwys y *Lyric Airs* (1804) draethawd llafurfa wr ar gerddoriaeth hynafol Groeg. Ond ei lyfrau pwysig yw'r tar cyfrol: *The Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards*, cyfrol gyntaf, 1784 (ailargraffiaid gydag, ychwanegiadau sylweddol, 1794), ail gyfrol, *The Bardic Museum*, 1802, trydedd gyfrol, Hen Ganiadau Cymru, 1820.

Ystyri'r tryddyd argraffiad, 1808, o'i waith yn grynhoad cynrychioliadol o'r barddoniaeth Saesneg orau sy'n deillio o darddiad Cymraeg diliys yng nghyfnod y Deffroad Celtaidd. Yr oedd ei *Popular Cheshire Melodies*, 1798, yn ymgais gynnari i gofnodi a chyhoeddi alawon Seisnig. Ystyri ef yn berformiwr da iawn, a dengys *Musical Remains*, 1796, ei allu. Ef oedd y cyntaf i gyhoeddi casgliad amrywiol o hen 'Benillion.' Casglodd a chyhoeddodd dros 200 o alawon Cymreig. Meddai gasgliad o lawysgrifau a llyfrau prin.

Gŵr unig, tawedog oedd. Bu farw yn ddiymgeledd 18 Ebrill 1824, a chiaddwyd ef ym mynwnt Marylebone.

Awdur

Tecwyn Ellis

Ffynonellau

J. Parry, 'Nodyn Bywgraffyddol'

Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards. Vol. 3 Hen Ganiadau Cymru. Cambro-British Melodies etc; harmonized with new basses; to which are added Variations for the Harp, or the Piano-Forte, Violin, or Flute etc; This third volume is a confirmation of the former two volumes of the Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards, etc (London 1820), 1825

Archifau LIGC: NLW MS 37B, NLW MS 38B, NLW MS 39B, NLW MS 40C, NLW MS 60B, NLW MS 61B, NLW MS 108B, NLW MS 109B, NLW MS 111B, NLW MS 111Bii, NLW MS 112B, NLW MS 125C, NLW MS 127C, NLW MS 148C, NLW MS 164C, NLW MS 165C, NLW MS 166C, NLW MS 167C, NLW MS 168C, NLW MS 169C, NLW MS 170C, NLW MS 171E, NLW MS 172E, NLW MS 173E, NLW MS 174E, NLW MS 225C, NLW MS 262B, NLW MS 322E, NLW MS 323E, NLW MS 340F, NLW MS 354B, etc.

J. Lloyd Williams, *Y tri thelynor arloeswyr cerddorol Cymru yn y ddeunawfed ganrif* (1945)

Y Cymrodor, 1951

Darllen Pellach

Edward Jones, *Musical and poetical relicks of the Welsh bards*(London 1784)

Edward Jones, *Musical and poetical relicks of the Welsh bards*(London 1794)

Edward Jones, *Musical relicks of the Welsh bards*(London 1800)

Edward Jones, *Musical relicks of the Welsh bards*(Dublin c.1800)

Edward Jones, *The bardic museum, of primitive British literature*(London 1802)

Edward Jones, *Musical and poetical relicks of the Welsh bards*(London 1825)

Edward Jones, *Hanes ganiadau Cymru* (London 1825)

Edward Jones, John Parry, *The Welsh harper*(London 1838)

Meirion Hughes, 'Jones, Edward (Bardd y Brenin; 1752-1824)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), tt.278-79

Erthygl Wicipedia: [Edward Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: NLW MS 37B: Hanes cerddoriaeth, barddoniaeth a thríoedd Cymreig, &c.

VIAF: 51883516

Wikidata: Q3048577

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Ellis, T., (1953). JONES, EDWARD ('Bardd y Brenin'; 1752 - 1824), telynor, trefnydd a chyhoeddwr cerddoriaeth i'r delyn, casglwr a chyhoeddwr hen benillion, alawon cenedlaethol, a chyflieithiadau i'r Saesneg, hanesydd llenyddiaeth Gymraeg ac offerynnau cerdy Cymry, casglwr llawysgrifau a hynafiaethydd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 17 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-EDW-1752>

Copiar i'r

Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Backed by
Welsh Government